



Pwll Deri tuag Penbwchdy

Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir



Pwll Deri tuag Penbwchdy

Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir

Parcio: Maes parcio wrth ymyl y ffordd yn yr hen chwarel (SM893387)

Hyd: 0.7 milltir (1.1km) bob ffordd

Gradd: Anwastad. 3 sticil

Arwyneb: Glaswellt a llwch gyda mwd tenau pan yn wlyb; cerrig brig mewn mannau

Ffôn: Trefasser (SM897377)

O'r maes parcio, cerddwch i'r dde ar hyd yr heol, heibio i gofgolofn Dewi Emrys (bardd enwog lleol) ac ar draws y sticil cyntaf ar y dde (Rhif 114).

Ar ôl y sticil, mae yna lethr sydd â graddiant o tua 1 mewn 5 am 50m ac ar ei waelod mae yna bedair o risiau ac yna ail sticil (rhif 115). Dyma rhan anoddaf y daith ac ar ôl y fan hon mae yna lethrau pantiog gyda graddiannau o 1 mewn 10 i lawr am 35m ac yna 1 mewn 5 am 10m (i lawr), 1 mewn 10 am 10m (i fyny) fel a ddangosir ar y map. Croeswch y trydydd sticil ar ddiwedd y daith hon ac mae yna sedd!

Ar y cyfan, mae'r daith hon yn wastad ac mae yna olygfeydd gwych o Fae Pwll Deri lle y gallwch weld y morloi a'u rhai bach yn yr Hydref.

Ffeil o Ffeithiau

Y penrhyn i'r gogledd yw Penbrush lle mae gweithgarwch folcanig wedi cynhyrchu lafâu clustog (pillow lavas). Y pwynt uchel tu ôl yw Garn Fawr, Bryngaer Oes Haearn, ac yn syth ymlaen mae

Dinas Mawr (gweler y map), caer bentir o'r Oes Haearn. Yr adeilad gwyn i'r gogledd yw Hostel leuenctid Pwll Deri.

Gellir gweld (a chlywed) y frân goesgoch yn yr ardal hon - edrychwch am aderyn du gyda phig a choesau coch. Yn yr Hydref, mae'r morloi'n defnyddio'r mannau bach o siâl yn y bae i gael eu rhai bach.

O'r maes parcio, mae yna olygfeydd gwych i'r de o Penberry, Carn Llidi, Carnedd Lleithr a'r pegwn uchel ar Ynys Dewi.

Er bod 100m cyntaf Llwybr yr Arfordir yn dipyn o her, mae'r golygfeydd yn werth yr ymdrech ac mae'r llwybr, ar y cyfan, yn wastad ac yn fflat.

